



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jayne Bryant AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru

12 Mehefin 2021

Annwyl Cadeirydd,

Diolch am ddarparu'r adroddiad terfynol o ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i effaith pandemig COVID-19 ar blant a phobl ifanc yng Nghymru.

Hoffem i gyd ddiolch i aelodau'r Pwyllgor a'r staff am eu gwaith caled a'u diwydrwydd wrth lunio'r adroddiad hwn ac yn ystod tymor y Senedd ddiwethaf.

Gan edrych i'r dyfodol, byddem yn argymhell bod Llywodraeth nesaf Cymru a'r pwyllgor a fydd yn eich dilyn yn parhau i fonitro effaith barhaus COVID-19 ar blant a phobl ifanc yn ofalus, gan ganolbwyntio ar y meysydd a nodir yn yr adroddiad terfynol.

Yn gywir

Jeremy Miles AS/MS
Gweinidog Y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Terfynol
y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
'Effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc'

Argymhelliad 1 – Llesiant ac addysg: Rhaid i lesiant ac addysg ein plant a'n pobl ifanc fod yn ganolog i'r holl waith cynllunio ar gyfer adferiad fel mater o flaenoriaeth

Derbyn

Bydd iechyd a llesiant corfforol a meddyliol ein dysgwyr wrth wraidd ein dull o fynd i'r afael ag effeithiau'r pandemig ar blant a phobl ifanc yng Nghymru bob amser. Mae'r rhain yn ffactorau allweddol sy'n ysgogi dysgu. Mae'r rhaglen dysgu carlam Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau yn cynnwys darpariaeth ymgysylltu a chymorth drwy hyfforddiant – gan gydnabod y bydd angen hyfforddiant a chymorth emosiynol ar y dysgwyr sydd wedi ymddieithrio fwyaf, yn ogystal â chymorth i baratoi ar gyfer arholiadau a meithrin sgiliau. Yn yr un modd, byddwn yn ceisio sicrhau bod y cymorth a'r canllawiau cywir ar gael i ysgolion a lleoliadau i gefnogi llesiant a chynnydd addysgol eu dysgwyr.

Ar 23 Mawrth, cyhoeddodd y cyn-Weinidog Addysg [Ddatganiad Llafar](#) ar lesiant mewn lleoliadau addysg. Ynndo, rhannodd ei phryderon ynghylch yr effaith y mae'r pandemig wedi ei chael ar bobl ifanc a'r angen i'w cefnogi wrth inni geisio ailadeiladu cymdeithas a'n bywydau bob dydd. Ym mis Mawrth, rhoesom yr hyblygrwydd i ysgolion roi'r cyfle i ddysgwyr ym mlynnyddoedd 7, 8 a 9, gael sesiynau ailgydio a oedd yn canolbwyntio ar gefnogi eu llesiant a'u paratoi i ddychwelyd i ddysgu ar y safle ar ôl y Pasg.

Yn ychwanegol at hyn, mae cefnogi anghenion unigryw ein dysgwyr ieuengaf drwy gyfleoedd chwarae eisoes wedi'i [nodi'n flaenoriaeth](#) gan y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg newydd. Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Gweinidog werth [£13m o gyllid ychwanegol](#) ar gyfer ysgolion a lleoliadau nas cynhelir i gefnogi'r gwaith o gynnig cyfleoedd chwarae addysgol gweithredol a dysgu arbrofol.

Argymhelliad 2 – Camau cadarnhaol ymlaen: Mae cydnabod effaith COVID-19 ar ein plant a'n pobl ifanc, a sut mae wedi tarfu ar eu bywydau, yn hanfodol. Ond mae cydbwysedd pwysig i'w daro rhwng cydnabod hyn a mynd i'r afael â'r mater, a hyrwyddo negeseuon llawer mwy cadarnhaol am wytnwch plant a phobl ifanc a'u cyfleoedd at y dyfodol. Rhaid defnyddio naratif ac iaith arall fel mater o flaenoriaeth, yn hytrach na sôn am “golli cyfleoedd dysgu” a'r angen i “ddal i fyny”.

Derbyn

Er mwyn cefnogi dysgwyr i symud ymlaen a chyflawni'n addysgol, mae'n hollbwysig ein bod yn cydnabod effeithiau'r pandemig ac yn cynnig y cymorth cywir ar gyfer pob rhan o'r system er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r rhain.

Gwyddom y dylai'r dull o gefnogi dysgu ganolbwyntio ar lesiant a hyder y dysgwyr, fel sylfeini allweddol ar gyfer dysgu. Hyd yma, nid yw ein gwaith adnewyddu a diwygio wedi ceisio defnyddio'r termau 'dal i fyny' na 'mynd gam yn ôl o ran dysgu': nid yw'r termau hyn yn gyson â'n dull o ymdrin â dysgu yn y Cwricwlwm i Gymru. Mae angen dull gweithredu mwy soffistigedig, gan gydnabod yr effeithiau gwahanol y bydd y tarfu dros y flwyddyn ddiwethaf wedi eu cael ar ddysgwyr gwahanol. Mae angen inni gefnogi'r sylfeini ar gyfer dysgu megis iechyd a llesiant corfforol a meddyliol, a helpu ysgolion i ganolbwyntio ar y dysgu sydd bwysicaf i gynnydd addysgol eu dysgwyr, gan gynnal darpariaeth eang a chytbwys ar yr un pryd.

Argymhelliad 3 – Cynlluniau wrth gefn: Rhaid i'r gwaith o baratoi ac o sicrhau adnoddau ar gyfer yr ymateb i gefnogi ein plant a'n pobl ifanc drwy unrhyw darfu pellach o ganlyniad i COVID-19 fod yn flaenoriaeth, ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus.

Derbyn

Ar ddechrau'r pandemig, sbardunodd Llywodraeth Cymru gymorth i ddysgwyr a oedd wedi'u hallgáu'n ddigidol, gan sicrhau cytundeb cysylltedd cenedlaethol â gweithredwyr ffonau symudol mawr i ddarparu 10,848 o ddyfeisiau MiFi a sefydlu datrysiad technegol i alluogi ysgolion ac awdurdodau lleol i addasu 9,717 o ddyfeisiau presennol i'w defnyddio yng nghartref dysgwr.

Yn fwy diweddar, lansiodd cynllun i ddarparu data ychwanegol i ddysgwyr ledled Cymru, a fydd yn ategu'r gymorth ar gyfer gwasanaethau cysylltedd ymhellach er mwyn helpu i ateb unrhyw alw ychwanegol a nodir gan awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn academaidd hon.

Drwy fuddsoddiad parhaus Llywodraeth Cymru yn rhaglen technoleg addysg (EdTech) Hwb, yn ogystal â pharodrwydd awdurdodau lleol i gyllido eu pryniannau ychwanegol eu hunain, rydym yn hyderus bod opsiynau ar gael i bob awdurdod lleol ateb y galw presennol a nodwyd am wasanaethau cysylltedd a dyfeisiau ledled Cymru.

Ym mis Chwefror 2021, gwnaethom ddarparu £5m ychwanegol i ysgolion a lleoliadau drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn rhoi rhagor o fesurau lliniaru ar waith. Rhoddwyd hyblygrwydd i alluogi ysgolion a lleoliadau i ymateb i'w hanghenion penodol eu hunain. Ymhlith y mesurau posibl roedd prynu gorchuddion wyneb, gwella systemau awyru a phrynu canopïau er mwyn creu ardaloedd wedi'u hawyru ychwanegol i ddysgwyr a chynnig cysgod rhag y tywydd.

Mae'r mesurau hyn wedi helpu ysgolion a lleoliadau i ymateb i'r heriau presennol, yn ogystal â pharatoi ar gyfer tarfu posibl yn y dyfodol, gan sicrhau bod eu hamgylcheddau mor ddiogel o ran COVID-19 â phosibl.

Argymhelliad 4 – Hawliau a llais plant: Rhaid mabwysiadu dull hawliau plant o ymdrin â phob penderfyniad, ar draws pob sector, fel mater o flaenoriaeth, a rhaid i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau glywed lleisiau plant a phobl ifanc i helpu i lywio'r broses adfer.

Derbyn

Mae Cymru yn wlad lle mae hawliau plant yn hawl sylfaenol. Rydym wedi arwain y ffordd ym maes hawliau plant drwy eu hymgorffori mewn cyfraith drwy Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

Yn ein [Cynllun Hawliau Plant](#) drafft, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu strategaeth cyfranogiad hirdymor i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfleoedd ystyrlon i fynegi eu barn.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i Plant yng Nghymru, sef corff ambarél cenedlaethol ar gyfer sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd yng Nghymru. Mae'r cyllid hwn yn sicrhau bod Gweinidogion a llunwyr polisi yn clywed barn plant a phobl ifanc drwy raglen 'Cymru Ifanc' a gweithgarwch cyfranogi arall.

Argymhelliad 5 – Seilwaith adfer: Rhoi'r seilwaith ar waith ar gyfer yr adferiad tymor canolog i dymor hir yn dilyn y tarfu ar addysg o ganlyniad i COVID-19 a'r goblygiadau ar gyfer y gwaith pellach sydd ei angen i wella ysgolion a sicrhau cydraddoldeb o ran deilliannau. Mae sicrhau bod digon o'r bobl addas mewn swyddi yn allweddol i hyn, yn ogystal â'r angen i sicrhau bod pob rhan o'r system addysg yn cael yr effaith fwyaf bosibl, gan gynnwys ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol.

Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu canllawiau anstatudol ar wella ysgolion sy'n nodi fframwaith gwerthuso, gwella ac atebolrwydd i ysgolion, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol ac Estyn, ac sy'n gyson â'r cwricwlwm newydd. Daeth ymgynghoriad cyhoeddus yn ceisio barn ar y [canllawiau ar wella ysgolion](#) i ben ddydd Llun 15 Mawrth, ac mae swyddogion wrthi'n adolygu'r ymatebion a gafwyd. Caiff y canllawiau eu cadarnhau cyn blwyddyn academaidd 2021/22.

Trefniadau gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i gefnogi system o hunanwella' yw un o bedwar amcan galluogi'r cwricwlwm newydd. Mae adroddiad OECD i Lywodraeth Cymru, '[Achieving the new curriculum for Wales](#)', yn pwysleisio bod angen i bob agwedd ar y system ysgolion fod yn gyson â'r cwricwlwm newydd a'i egwyddorion sylfaenol, a'u cefnogi, er mwyn i'r cwricwlwm newydd fod yn llwyddiannus. Bwriedir i'r fframwaith atebolrwydd fod yn gyson ag egwyddorion y cwricwlwm newydd, gan gynnwys cyflawni'r pedwar diben.

Diben cyffredinol y canllawiau yw helpu ysgolion i wella er mwyn rhoi'r profiadau dysgu a'r deilliannau gorau posibl i ddysgwyr, a thrwy hynny, godi safonau a lleihau'r bwlch rhwng dysgwyr dan anfantais a'u cyfoedion.

Yr haf diwethaf, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £29m o gyllid ychwanegol i recriwtio, adfer a chodi safonau mewn ysgolion yng Nghymru mewn ymateb i effaith pandemig COVID-19. Diben y cyllid oedd helpu i recriwtio'r hyn sy'n cyfateb i 600 o athrawon ychwanegol a 300 o gynorthwywyr addysgu. Rydym wedi rhagori ar y targedau hynny. Dengys data recriwtio diweddar gan awdurdodau lleol fod tua 1,800 o recriwtiaid yn y system ar hyn o bryd, gan gynnwys Athrawon, Cynorthwywyr Addysgu a staff eraill (megis mentoriaid a gweithwyr ieuencid), gyda'r nod o gefnogi dysgwyr sy'n wynebu'r heriau mwyaf.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu dros £20m ar gyfer tymor yr haf 2021 er mwyn cynnal ac ymestyn y rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau a chefnogi dysgwyr mewn blynyddoedd pontio (blynyddoedd 11, 12 a 13). Ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/21, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo dros £130m, gan gynnwys £24m i gynnal y Rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau a chadw'r 1,800 o aelodau o staff addysgu i ddarparu mentora a chymorth pwrpasol i'r dysgwyr mwyaf anghenus; £33m ar gyfer addysg bellach a'r chweched dosbarth i gefnogi blynyddoedd pontio, a £13m ar gyfer dysgwyr yn y blynyddoedd cynnar. Mae hyn hefyd yn cynnwys dros £25m ar gyfer prydau ysgol am ddim a Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf i ddysgwyr dan anfantais, a £5m ar gyfer Haf o Hwyl.

Argymhelliad 6 – Cynlluniau wrth gefn ar gyfer addysg: Paratoi ar gyfer yr ymateb i unrhyw darfu pellach o ganlyniad i COVID-19, gan gynnwys unrhyw angen yn y dyfodol am addysgu o bell, dysgu gwersi o'r deuddeg mis diwethaf e.e. o ran allgáu digidol (gan gynnwys materion yn ymwneud â chysylltedd), profiadau amrywiol dysgwyr, effaith ar sgiliau Cymraeg disgyblion o gartrefi di-Gymraeg, a phwysigrwydd ymgysylltu â rhieni.

Derbyn

Erys Llywodraeth Cymru yn gwbl ymrwymedig i weithio'n agosach gydag awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod ysgolion a dysgwyr yn cael y cymorth angenrheidiol i fanteisio ar gyfleoedd dysgu digidol.

Rydym yn parhau i fuddsoddi'n sylweddol yn ein rhaglen Hwb er mwyn darparu amrywiaeth eang o seilwaith, gwasanaethau ac adnoddau digidol i ysgolion a gynhelir ledled Cymru. Mae'r buddsoddiad hwn, sef cyfanswm o dros £160 miliwn hyd yma, yn helpu i drawsnewid seilwaith EdTech mewn ysgolion, darparu gwasanaethau cenedlaethol sy'n fwy hygyrch i bob disgybl ac ymarferydd yn yr ysgol a'r cartref. Mae hefyd wedi helpu i ddsbarthu mwy na 133,000 o ddyfeisiau defnyddwyr yn ystod y pandemig, ac mae 51,500 o ddyfeisiau ychwanegol wedi'u harchebu i'w dosbarthu ym mis Ebrill a mis Mai.

Mae Cymru mewn sefyllfa dda iawn i gefnogi ysgolion, ymarferwyr a dysgwyr yn ystod cyfnodau o addysgu a dysgu o bell drwy Hwb, ein llwyfan digidol cenedlaethol ar gyfer addysgu a dysgu. Mae Hwb yn darparu amrywiaeth o adnoddau digidol dwyieithog ac am ddim i'w ddefnyddwyr.

Mae ein [hadran dysgu cyfunol](#) ar Hwb yn cynnwys adnoddau i gefnogi rhanddeiliaid ym maes addysg wrth gynnal gweithgareddau dysgu cyfunol, yn ogystal â dolenni i gyngor ar iechyd a llesiant. Mae *'Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu'* yn cynnwys cyfraniadau o bob rhan o'r sector addysg a'r tu hwnt, er mwyn rhoi cymorth i'r system addysg gyfan, ac mae'r parth *'Cadw'n Ddiogel Ar-lein'* hefyd yn rhoi cymorth i bob rhanddeiliad addysg, gan gynnwys amrywiaeth eang o adnoddau a gwasanaethau cymorth eraill.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymestyn ei chymorth ar gyfer dysgwyr sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol tan ddiwedd y flwyddyn academaidd bresennol, ac mae'n gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod amrywiaeth o gymorth ar gael i gefnogi unrhyw gyfnodau pellach o darfu.

O ran dysgu Ôl-16, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu dros £10 miliwn o gyllid cyfalaf ers mis Gorffennaf 2020 er mwyn helpu darparwyr dysgu Ôl-16 (gan gynnwys darpariaeth sefydliadau addysg bellach, rhaglenni dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion yn y gymuned) i gefnogi dysgwyr sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol i barhau i ddysgu o bell pan nad ydynt wedi gallu defnyddio cyfleusterau ar y safle yn ystod pandemig COVID-19.

Caiff adroddiad cryno ar gyllid ar gyfer cynhwysiant digidol Ôl-16 ei baratoi yn ystod gwanwyn 2021. Wrth i ddysgu cyfunol ddod yn rhan annatod o ddarpariaeth dysgu

yn y dyfodol, bydd angen datblygu rhagor o fodelau cynaliadwy ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith a chyfarpar digidol ar y cyd â'n darparwyr dysgu.

Nodwyd yr angen i gefnogi dysgwyr Cymraeg a'u teuluoedd yn gynnar yn ystod y pandemig, sef y rheswm dros sefydlu ffrwd waith benodol yn [Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu: Cynllun parhad dysgu](#), gyda mewnbwn gan ysgolion, consortia addysg rhanbarthol yn ogystal â'r BBC, S4C a chyhoeddwyr Cymraeg. O ganlyniad i hyn, cafodd adnoddau Cymraeg ychwanegol i ysgolion – ond hefyd i rieni – eu hychwanegu at HwB. Canolbwyntiwyd yn bennaf ar adnoddau i annog dysgwyr i ddarllen, gwrando a defnyddio'r Gymraeg – o'r Cyfnod Sylfaen hyd at yr ysgol Uwchradd.

Ochr yn ochr â hyn, ffurfiodd Cyngor Partneriaeth y Gymraeg, a sefydlwyd i gefnogi'r cyn-Weinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg mewn perthynas ag agweddau ar y broses o roi *Cymraeg 2050* ar waith, Is-grŵp Addysg er mwyn ystyried effaith bosibl y pandemig ar ddatblygiad ieithyddol dysgwyr, a'r cymorth sydd ei angen ar rieni, yn ogystal â chyfleoedd i ddefnyddio egwyddorion addysg drochi i helpu dysgwyr i ddal i fyny.

I ddechrau, ystyriodd yr Is-grŵp ganlyniadau arolwg rhieni a gynhaliwyd gan RhAG (Rhieni dros Addysg Gymraeg) – sefydliad a gyllidir drwy grant gan Lywodraeth Cymru) – a oedd yn canolbwyntio ar effaith y cyfyngiadau symud ar rieni a disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Nododd yr arolwg, y cafwyd dros 800 o ymatebion iddo, yr angen i athrawon, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru fod yn fwy rhagweithiol wrth rannu negeseuon clir a syml â rhieni, yn ogystal â rhoi cymorth ymarferol, cyngor a sicrwydd i rieni sydd â'r dasg o helpu eu plant i gynnal eu sgiliau Cymraeg gartref.

Rydym wrthi'n gweithio gyda RhAG i gynnal ail arolwg rhieni er mwyn canfod sut mae dychwelyd i'r ysgol/cyfnod o ddysgu cyfunol wedi effeithio ar ddysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, a ph'un a yw defnyddio egwyddorion addysg drochi dwys mewn ysgolion yn rhoi'r cymorth sydd ei angen ar ddysgwyr a'u teuluoedd i barhau i ddysgu'r Gymraeg ai peidio.

Argymhelliad 7 – Cymorth i ddysgwyr sy'n agored i niwed a dysgwyr dan anfantais: Cefnogi cynnydd a chanlyniadau addysgol ymhlith y grwpiau hyn, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, plant o aelwydydd incwm isel eraill, y rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, gofalwyr ifanc, plant sydd wedi bod mewn gofal, a dysgwyr mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion a lleoliadau Addysg Heblaw yn yr Ysgol eraill. Dylid ategu hyn drwy gasglu a chyhoeddi data presenoldeb wedi'u dadgyfuno ar gyfer y grŵp hwn o ddisgyblion yn ystod y pandemig er mwyn nodi unrhyw newidiadau penodol.

Derbyn

Caiff system Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd ei chyflwyno ym mis Medi 2021 fesul cam, yn lle'r system AAA bresennol. Bydd y system hon yn creu fframwaith deddfwriaethol unedig i gefnogi dysgwyr ag ADY o 0 i 25 oed. Ei nod yw sicrhau bod y cymorth ychwanegol sydd ei angen ar blant a phobl ifanc i ddiwallu eu hanghenion yn cael ei gynllunio a'i warchod yn briodol.

Dyrannwyd £9.8 miliwn ychwanegol i ysgolion a cholegau i gefnogi Anghenion Dysgu Ychwanegol yn 2020-21, yn benodol mewn ymateb i bwysau yn sgil pandemig COVID-19. Mae hyn yn ychwanegol at yr £8 miliwn a ddyrannwyd eisoes ar gyfer ADY yn 2020-21 a'r pecyn cymorth gwerth £20 miliwn ar gyfer y Rhaglen Trawsnewid ADY sydd eisoes ar waith ar gyfer tymor presennol y Senedd, ac mae'n cydnabod yr anawsterau penodol i blant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol yn ystod COVID-19.

Mae pum arweinydd trawsnewid ADY wedi bod mewn swydd ers mis Ebrill 2018. Maent yn rhoi cyngor, cymorth a her i awdurdodau lleol, ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion, lleoliadau Blynyddoedd Cynnar a Sefydliadau Addysg Bellach, wrth iddynt baratoi i roi'r rhaglen trawsnewid ADY ar waith, gan gynnwys drwy hunanasesiadau o barodrwydd a thrwy ddatblygu cynlluniau gweithredu lleol.

O fis Medi 2021 ymlaen, bydd yr arweinwyr trawsnewid yn troi eu sylw at sicrhau ansawdd y broses o gyflwyno'r system newydd a sicrhau y caiff ei rhoi ar waith a'i hymgorffori'n briodol. Bydd hyn yn cynnwys cymedroli a chefnogi'r broses o greu Cynlluniau Datblygu Unigol; ymgysylltu'n barhaus â gwasanaethau iechyd, gan gynnwys canolbwyntio ar ddatblygu a mireinio llwybrau atgyfeirio effeithiol; parhau i gyflwyno pecynnau hyfforddi ac ymgysylltu â sector y blynyddoedd cynnar a'r sector iechyd, a chanolbwyntio'n benodol ar roi'r diwygiadau i'r sector ôl-16 ar waith yn effeithiol.

At hynny, gwnaethom gyhoeddi [Canllawiau ar gyfer cefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed a dan anfantais](#), gyda'r nod o gefnogi ysgolion a lleoliadau i sicrhau dull cynhwysol ar gyfer pob dysgwr, gan roi ystyriaeth benodol i ofalwyr ifanc a phlant â phrofiad o fod mewn gofal.

Rydym yn cydnabod efallai y bydd cyfrifoldebau gofalu gofalwyr ifanc wedi cynyddu yn ystod y pandemig; naill ai o ran nifer yr oriau y maent yn gofalu am rywun, y mathau o dasgau y maent yn eu cyflawni neu nifer y bobl y maent yn gofalu amdanynt. Gall hyn olygu nad yw gofalwr ifanc wedi gallu ymroi'n llawn i ddysgu

gartref a'i fod wedi mynd ar ei hôl hi gyda'i astudiaethau, a all beri pryder iddo am ei addysg.

Cyllidodd Llywodraeth Cymru [Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru](#) i lunio canllawiau a chynlluniau gwersi, a lansiodd yn 2020, er mwyn helpu ysgolion a lleoliadau i wella eu dealltwriaeth o anghenion a hawliau cyfreithiol gofalwyr ifanc.

Rydym yn parhau'n ymrwymedig i wella deilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal. Cynhaliodd ein heiriolwr codi cyrhaeddiad, Syr Alasdair Macdonald, ymarfer cwmpasu rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2020 i ystyried dull integredig o wella deilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal.

Mae'r pum argymhelliad yn yr adroddiad yn eang, gan gynnwys un i ddatblygu model ysgolion rhithwir yng Nghymru. Rydym wedi comisiynu ymchwilydd annibynnol, sef IFF Research, i wneud rhagor o waith ymchwil ac ymgysylltu â phartneriaid er mwyn deall sut y gellid rhoi'r argymhellion ar waith a gwneud cynnydd yn gyflym. Mae'r adroddiad terfynol wrthi'n cael ei gwblhau a bydd ar gael yn fuan.

Rydym hefyd wedi darparu £3.2m o gyllid ychwanegol ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad i gefnogi dysgwyr cymwys, gan ddod â'r cyfanswm ar gyfer y flwyddyn nesaf i dros £10m. Mae cynyddu cyllid ar gyfer cyllidebau sy'n seiliedig ar alw yn y ffordd hon yn ein galluogi i ymateb i newidiadau i'r angen a sicrhau bod y rhai y mae angen cymorth ychwanegol arnynt fwyaf yn gallu manteisio arno mewn modd amserol.

Ers mis Medi 2020, rydym wedi bod yn monitro cyfraddau presenoldeb dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim a dysgwyr ag ADY. Er nad ystyrir bod y data'n addas i lunio datganiad ystadegol swyddogol ar hyn o bryd (casglwyd y data ar adeg pan oedd ysgolion yn wynebu nifer o heriau ac efallai nad yw'r cofnodion mor gyfredol na chywir ac y byddent fel arfer. Hefyd, ni ellir cymharu'r diffiniad presennol â data hanesyddol), mae hyn yn rhywbeth y bydd y Gweinidog newydd yn ei ystyried yn ystod tymor presennol y Llywodraeth.

Argymhelliad 8 – Dull system gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a llesiant: Darparu dull ysgol gyfan a system gyfan o ymdrin ag iechyd a llesiant emosiynol a meddyliol dysgwyr, yn dilyn ein hadroddiadau ar gyfer ymchwiliad 'Cadernid Meddwl'.

Derbyn

Ar 15 Mawrth 2021, gwnaethom gyhoeddi [Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol](#) ar yr un pryd ag y dychwelodd plant hŷn i addysg. Mae'r fframwaith yn ymateb allweddol i adroddiad [Cadernid Meddwl](#) y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a gyhoeddwyd yn 2018. Ystyriodd yr adroddiad lesiant emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc, gan ganolbwyntio ar rôl addysg. Canolbwyntiodd hefyd ar anghenion y 'canol coll', sef pobl ifanc ag anawsterau emosiynol gwirioneddol ond nad ydynt o reidrwydd wedi cael diagnosis o salwch meddwl ac sy'n aml yn cael fawr ddim cymorth, os o gwbl, o ganlyniad i hynny.

Ochr yn ochr â gwaith [Rhaglen Gyda'n Gilydd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc a arweinir gan y GIG](#), sy'n ystyried y 'dull system gyfan', nod y fframwaith yw sicrhau bod ysgolion, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill yn diwallu holl anghenion llesiant pobl ifanc mewn ffordd gyson a theg.

At hynny, rydym wedi cydnabod drwy gydol pandemig COVID-19 fod pryderon ynghylch yr effaith ar ddysgwyr a staff wedi parhau i gynyddu ym mhob rhan o'r sector addysg. Er mwyn cefnogi hyn, mae £2.5m ychwanegol wedi'i ddyrannu i'r sector Addysg Bellach, ac mae £0.5m wedi'i glustnodi ar gyfer dysgu seiliedig ar waith.

Ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21, mae £2m ychwanegol wedi'i ddyrannu i gefnogi iechyd meddwl a llesiant ym maes Addysg Bellach. Bydd y cyllid hwn yn helpu i gynnal partneriaethau, yn annog rhagor o gydweithio ac yn sicrhau dull mwy cyson o gefnogi iechyd a meddwl a llesiant ym mhob rhan o'r sector.

Gan adeiladu ar y £2m ychwanegol a ddarparwyd yn 2020-21 ar gyfer y dull ysgol gyfan, mae £4m ychwanegol wedi'i ddyrannu yn 2021-22, gan ddarparu cyllideb gyffredinol o £9m ar gyfer y dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl yn 2021-22.

Argymhelliad 9 – Cyllido ysgolion: Cyflawni argymhellion ein hymchwiliad i gyllido ysgolion ac Adolygiad Sibieta a gynhaliwyd ar ôl hynny, er mwyn sicrhau bod digon o arian ar gael ar gyfer ysgolion a'i fod yn cael ei ddosbarthu'n effeithiol.

Derbyn mewn egwyddor

Y brif ffynhonnell cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion yw'r cyllid a roddir i awdurdodau lleol drwy Grant Cynnal Refeniw'r Setliad Llywodraeth Leol fel rhan o gyllid y Prif Grŵp Gwariant Tai a Llywodraeth Leol. Mae darparu'r setliad gorau posibl i lywodraeth leol, wedi bod yn ganolog i'n paratoadau cyllidebol unwaith eto eleni. Rydym yn darparu £176m ychwanegol i lywodraeth leol yn 2021-22 i gefnogi gwasanaethau rheng flaen, gan gynnwys ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn ategu'r setliad sylweddol fwy yn y flwyddyn gyfredol i ddarparu cymorth a gwasanaethau lleol hollbwysig a gwerthfawr, gan ganolbwyntio ar ysgolion a gofal cymdeithasol.

Rydym yn parhau i gydnabod bod Addysg yn un o'r buddsoddiadau pwysicaf y gallwn ei wneud i wella cyfleoedd plant mewn bywyd, yn enwedig y plant hynny o gymunedau difreintiedig a'r rhai â nodweddion gwarchoddedig. Ochr yn ochr â chyllid ar gyfer llywodraeth leol, a fydd yn cefnogi ysgolion, rydym wedi gwneud nifer o fuddsoddiadau penodol. Mae hyn yn cynnwys £112m yn ystod 2020-21 a 2021-22 i gefnogi athrawon a dysgwyr y mae'r pandemig wedi effeithio arnynt, £23.3m o gyllid COVID-19 ychwanegol i ymestyn y ddarpariaeth prydau ysgol am ddim i gynnwys gwyliau'r ysgol dwy gydol 2021-22, a £21.7m ychwanegol yn 2021-22 i gydnabod y cynnydd a ragwelir yn nemograffeg pobl ifanc 16-19 mewn addysg chweched dosbarth ac addysg bellach.

Mae'r [Adolygiad o Wariant Ysgolion yng Nghymru](#) yn darparu tystiolaeth werthfawr i alluogi llunwyr polisi i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth wrth ystyried cyllid ar gyfer ysgolion ledled Cymru yn y dyfodol, gan gynnal ein nod cyffredinol o wella safonau a lleihau anghydraddoldebau mewn ysgolion. Bydd y canfyddiadau'n helpu llunwyr polisi i benderfynu a oes gan ysgolion mewn amgylchiadau gwahanol ddigon o gyllid ac i bennu'r ffordd orau o dargedu unrhyw gynnydd mewn gwariant, nawr ac yn y dyfodol, i gefnogi ein diwygiadau addysg.

Mae [Rhaglen Gyfalaf Ysgolion a Cholegau'r 21^{ain} Ganrif](#) wedi bod yn buddsoddi yn yr ystad ysgolion bob blwyddyn ers 2014. Mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r Rhaglen mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol, h.y. awdurdodau lleol, colegau ac eraill; a mater i'n rhanddeiliaid yw blaenoriaethu'r prosiectau i fuddsoddi ynddynt. Lle y bo'n bosibl, mae grant cyfalaf cynnal a chadw wedi'i ddarparu i gefnogi rhaglen atgyweirio a chynnal a chadw flynyddol awdurdodau lleol.

Argymhelliad 10 – Cymwysterau: Monitro'r broses o ddyfarnu cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol yn 2021 a 2022, gan gynnwys y cydbwysedd rhwng cynnal hyder y cyhoedd o ran hygredd cymwysterau a sicrhau tegwch i garfannau yr effeithiwyd arnynt gan y tarfu o ganlyniad i COVID-19.

Derbyn

Mae'r Grŵp Cyngori Dylunio a Chyflawni, sy'n cynnwys amrywiaeth o benaethiaid ac arweinwyr colegau o bob cwr o Gymru, a gefnogir gan gyngor asesu arbenigol gan CBAC a Cymwysterau Cymru, wedi datblygu'r dull o ddyfarnu cymwysterau cyffredinol yn 2021 ar y cyd ac yn cefnogi'r broses o'i gyflawni.

Mae'r blaenoriaethau allweddol sy'n llywio'r gwaith o ddatblygu'r model graddau a bennir gan ganolfannau, a gyhoeddwyd gan y cyn-Weinidog Addysg ar 20 Ionawr 2021, wedi bod yn cefnogi llesiant a chynnydd dysgwyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau eleni, gan gynnal hygredd y system cymwysterau yn 2021 ac am flynyddoedd i ddod. Bydd Cymwysterau Cymru, fel y rheoleiddiwr, yn monitro'r broses o ddyfarnu cymwysterau galwedigaethol a chyffredinol ac yn cyhoeddi amrywiaeth o ddatblygiadau mewn perthynas â chymwysterau yn 2021, er mwyn rhoi tryloywder ynghylch y trefniadau a ddatblygwyd ar gyfer 2021.

Rydym yn cydnabod bod dysgwyr a fydd yn astudio ar gyfer cymwysterau yn 2022 yn awyddus i ddeall sut y byddant yn cael eu cefnogi o ystyried y tarfu yn sgil COVID-19, ond yn yr achos cyntaf, rydym wedi blaenoriaethu'r trefniadau ar gyfer cymwysterau yn 2021 er mwyn sicrhau y gall y dysgwyr hyn symud ymlaen i'w camau nesaf mewn addysg, gwaith neu gyflogaeth.

Mae Cymwysterau Cymru wedi cadarnhau y caiff addasiadau eu gwneud i gymwysterau yn 2022, gan gydnabod y tarfu a fu ar yr addysgu a'r dysgu, a chaiff ymgynghoriad technegol ei gynnal ag athrawon ac arbenigwyr pwnc yn nhymor yr haf fel y gellir cadarnhau'r trefniadau hyn er mwyn llywio'r gwaith o lunio cynlluniau addysgu a dysgu ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf

Argymhelliad 11 – Diwygio deddfwriaethol mawr a phwysau sy'n cystadlu: Sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i reoli effaith COVID-19 ochr yn ochr â gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 o fis Medi 2021 a Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (yn amodol ar Gydsyniad Brenhinol) o fis Medi 2022.

Derbyn

Ym mis Chwefror 2021, cytunodd y cyn-Weinidog Addysg i ymestyn y rhaglen trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) hyd at flwyddyn ariannol 2021-22, yn unol â'r amserlenni gweithredu diwygiedig. Mae hyn yn cynnwys ymestyn cyfnod swydd y pum Arweinydd Trawsnewid ADY am flwyddyn ychwanegol, er mwyn parhau i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r rhaglen trawsnewid ADY. Maent yn rhoi cyngor, cymorth a her i awdurdodau lleol, ysgolion, lleoliadau Blynyddoedd Cynnar a sefydliadau addysg bellach wrth iddynt baratoi i roi'r rhaglen trawsnewid ADY ar waith, gan gynnwys drwy hunanasesiadau o barodrwydd a thrwy ddatblygu cynlluniau gweithredu lleol.

At hynny, yn 2021-22, byddwn yn dyrannu Grant ADY o £8m i gefnogi awdurdodau lleol a cholegau addysg bellach i ddarparu addysg i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae grant o £9.8 miliwn i gefnogi Anghenion Dysgu Ychwanegol yn 2021-22 wedi'i ddosbarthu i awdurdodau lleol a cholegau, gan gydnabod y pwysau penodol sy'n deillio o bandemig COVID-19.

Yn ychwanegol at ein cymorth parhaus ar gyfer dysgu proffesiynol, rydym wedi cynyddu'r cyllid ar gyfer diwygio'r cwricwlwm a threfniadau asesu tua £8.3 miliwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22. Caiff y mwyafrif helaeth o'r cyllid ychwanegol hwn ei neilltuo i ysgolion i gefnogi eu gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm yn ystod y cyfnod allweddol hwn.

Argymhelliad 12 – Ymarfer corff: Cynyddu cyfleoedd ar gyfer ymarfer corff i blant a phobl ifanc, mewn cymunedau ac o fewn ysgolion, er mwyn manteisio i'r eithaf ar y manteision corfforol ac iechyd meddwl o ymarfer corff a chwarae. Dylid agor cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau awyr agored cyn gynted â phosibl, a dim ond os yw'n gwbl hanfodol ac yn seiliedig ar dystiolaeth glir y dylid cyflwyno cyfyngiadau pellach.

Derbyn

Rydym wedi bod yn awyddus i sicrhau bod ein hysgolion a'n lleoliadau yn cydnabod pwysigrwydd dysgu yn yr awyr agored, a hynny mewn ymateb uniongyrchol i'r pandemig ond hefyd o ran y buddiannau eangach i lesiant dysgwyr. Felly, rydym wedi gosod canllawiau clir ar ddysgu, a chanllawiau ar faterion gweithredol sy'n cynnwys y disgwyliad i ysgolion a lleoliadau sicrhau bod dysgwyr yn treulio cymaint o amser â phosibl yn yr awyr agored.

Yn fwy cyffredinol, rydym hefyd wedi bod yn awyddus i gydnabod buddiannau dysgu yn yr awyr agored o ran cynnydd dysgwyr drwy'r continwwm dysgu 3-16 oed ym mhob rhan o'r cwricwlwm. Mae hyn wedi'i nodi mewn canllawiau ar ein Cwricwlwm i Gymru, a gyhoeddwyd y llynedd. Er mai o fis Medi 2022 y bydd y cwricwlwm gweddnewidiol hwn yn cael ei gyflwyno, mae llawer iawn o'n hysgolion eisoes yn defnyddio ei ddibenion a'i ddulliau gweithredu i ymateb i anghenion dysgu sy'n deillio o'r pandemig

Gall profiadau addysgol awyr agored preswyl hefyd chwarae rôl bwysig wrth gefnogi'r broses o gyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru. Mae'r canolfannau'n cynnig cyfleoedd dysgu arbenigol y tu allan i'r ystafell ddosbarth a buddiannau llesiant cydnabyddedig. Gan gydnabod yr effaith y mae'r pandemig wedi ei chael ar addysg awyr agored breswyl, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg [gronfa o £2m ar y cyd](#) â Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru i gefnogi'r sector yng Nghymru.

Mae Colegau Cymru wedi cael ei chyllido drwy grant i gyflawni prosiect cenedlaethol sy'n mynd i'r afael â llesiant actif dysgwyr a staff ac yn ystyried yr effaith gadarnhaol y mae llesiant actif yn ei chael ar iechyd meddwl. Mae'r prosiect yn cynnwys ymchwil wedi'i harwain gan gymheiriaid ar lesiant actif er mwyn datblygu amrywiaeth o adnoddau a ffeithluniau i gefnogi llesiant actif dysgwyr a staff. Ei nod hefyd yw nodi bylchau mewn ymchwil mewn perthynas â'r cysylltiadau rhwng gweithgarwch corfforol a llesiant ym maes Addysg Bellach. Mae'r ymchwil hon yn cyflwyno cyfle i ymgysylltu â dysgwyr a staff er mwyn meithrin dealltwriaeth well o'r cysylltiad rhwng gweithgarwch corfforol a llesiant.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru i ddarparwyr gofal plant ar gadw lleoliadau'n ddiogel yn pwysleisio pwysigrwydd manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i wneud gweithgarwch corfforol yn yr awyr agored. Fel rhan o weledigaeth CGGC, a fydd yn cydblethu â'r cwricwlwm newydd, bydd plant yn gallu manteisio ar amgylchedd ysgogol o ansawdd uchel dan do ac yn yr awyr agored.

Argymhelliad 13 – Cynaliadwyedd y gweithlu: Mynd i'r afael â'r problemau recriwtio a chadw yn y gweithlu iechyd (corfforol a meddyliol) plant, a sicrhau bod Llywodraeth Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn edrych yn strategol ac yn greadigol ar sut y defnyddir y gweithlu hwn a'r setiau sgiliau sydd eu hangen. Dylai hyn gynnwys ystyried rolau sy'n llenwi'r bylchau rhwng gwasanaethau (er enghraifft rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd a rhwng arbenigeddau).

Derbyn

Bydd [Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#) Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru, a lanswyd ym mis Hydref 2020, yn trawsnewid y gweithlu ar lefel y system gyfan ac yn sicrhau gweithlu cynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Caiff cynlluniau gweithlu manwl eu datblygu ar gyfer amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys plant a phobl ifanc.

Argymhelliad 14: – Tlodi Dangos cydnabyddiaeth glir o'r cysylltiad cryf rhwng tlodi, salwch meddwl a hunanladdiad, cymryd camau brys i fynd i'r afael ag effeithiau economaidd y pandemig ar les meddyliol plant a phobl ifanc, a lliniaru yn erbyn cynnydd posibl mewn hunanladdiad. Yn gysylltiedig â hyn, mae angen gwneud rhagor o waith brys i archwilio'r potensial ar gyfer ymestyn addysg a hyfforddiant statudol y tu hwnt i 16 oed, er mwyn cyfrannu'n gadarnhaol at leihau tlodi a'r cysylltiadau cysylltiedig â phroblemau iechyd meddwl i bobl ifanc, gan gynnwys hunanladdiad ymhlith pobl ifanc.

Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i leihau nifer yr achosion o hunanladdiad a hunan-niwed, ac mae wedi datblygu Siarad â Fi 2, sef ein strategaeth i atal hunanladdiad a hunan-niwed yng Nghymru.

Yn ychwanegol at ganllawiau Llywodraeth Cymru, [Ymateb i faterion hunan-niweidio a theimladau hunanladdol ymhlith pobl ifanc](#) a gyhoeddwyd ym mis Medi 2019, ac ochr yn ochr â chyllid ehangach ar gyfer iechyd meddwl, rydym hefyd wedi ymrwymo i ddarparu £0.5m ychwanegol bob blwyddyn i fynd i'r afael â hunanladdiad a hunan-niwed. Mae hyn yn cynnwys ariannu pedair swydd newydd er mwyn ysgogi'r gwaith hwn a chydgyssylltu'r nifer o asiantaethau sydd â rôl i'w chwarae yn yr agenda hon. Mae'r Cydgysylltydd Atal Hunanladdiad Cenedlaethol newydd, a gefnogir gan dri Chydgyssylltydd Rhanbarthol, yn cydgysylltu dulliau gweithredu ac yn arwain y gwaith o ddatblygu camau gweithredu newydd i atal hunanladdiad a hunan-niwed, a'u rhoi ar waith.

Mae ein Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol ar Ddull System Gyfan yn ystyried yr holl faterion, gan gynnwys hunanladdiad a hunan-niwed, sy'n effeithio ar lesiant emosiynol a meddyliol pobl ifanc, ac mae ein Cyllideb Derfynol ar gyfer 2021 yn cynnwys ymrwymiad i ddyblu'r cyllid yn y maes hwn i £5m.

Yn 2020, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ystyried pa dystiolaeth sy'n bodoli mewn perthynas â Chodi Oedran Cyfranogi mewn addysg/hyfforddiant gorfodol i 18 oed, gyda'r nod o lywio trafodaethau a phenderfyniadau gan weinidogion ynghylch datblygu polisi yn y maes hwn yn y dyfodol. Cyhoeddwyd yr [adroddiad](#) ar 24 Chwefror 2021. Nododd yr adroddiad fod cyfraddau cyfranogi mewn dysgu ôl-16 yn uchel iawn ymhlith pobl ifanc 16 oed yng Nghymru, a chwestiynodd rhanddeiliaid yr angen am newidiadau statudol i orfodi cyfraddau cyfranogi uwch. Prin oedd yr awydd i gyflwyno deddfwriaeth mewn perthynas â chodi oedran cyfranogi i orfodi cyfranogiad mewn dysgu ôl-16, a mynegwyd pryderon ynghylch logisteg rhoi deddfwriaeth o'r fath ar waith a'i gorfodi, a'i heffaith ar bobl ifanc o grwpiau anodd eu helpu/anodd eu cyrraedd. Y farn gyffredinol oedd y dylid cynnig amrywiaeth o opsiynau ôl-16 i bobl ifanc (addysg, cyflogaeth a hyfforddiant), ac y byddai llwybr ôl-16 orfodol yn yr ysgol yn ddewis rhy gul i rai grwpiau o bobl ifanc.

Drwy'r [Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid](#), mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad hirsefydledig i sicrhau'r cyfleoedd gorau posibl i bob plentyn a pherson ifanc. Mae hyn yn cynnwys eu helpu i fanteisio ar gyfleoedd addysg a hyfforddiant, wedyn cyflogaeth, a'u galluogi i wireddu eu potensial. Rydym yn cydnabod bod

amgylchiadau economaidd a phersonol yn golygu bod rhai grwpiau o bobl ifanc yn wynebu heriau enfawr i ddatblygu, a dim ond ychwanegu at yr heriau hyn y mae'r pandemig wedi ei wneud.

Ar hyn o bryd, caiff y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid ei gefnogi gan y Grant Cymorth Ieuenctid, a delir i awdurdodau lleol ac sy'n cyllido gweithgarwch gwaith ieuenctid yn ogystal â gweithgarwch sy'n gysylltiedig â'r Fframwaith. Mae hyn yn cynnwys £2.5m i fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag iechyd a llesiant meddyliol ac emosiynol drwy waith ieuenctid, a £3.7m gan y Prif Grŵp Gwariant Tai a Llywodraeth Leol i atal digartrefedd ymhlith pobl ifanc.

Argymhelliad 15 – Ceisio cymorth: Cyfleu pa mor bwysig yw ceisio cyngor amserol er mwyn osgoi oedi o ran cael diagnosis a'r driniaeth sydd ei hangen. Sicrhau bod pobl ifanc a'u teuluoedd yn ymwybodol bod gwasanaethau iechyd corfforol a meddyliol plant ar agor, a bod gwybodaeth glir ar gael am wasanaethau a chymorth.

Derbyn

Drwy gydol y pandemig, arhosodd gwasanaethau iechyd meddwl ar agor a bu modd iddynt gefnogi plant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai ag anghenion haenau 0 ac 1. Mae pob bwrdd iechyd wedi rhoi sicrwydd i Lywodraeth Cymru am hyn. Yn ymarferol, er bod effaith wedi bod ar wasanaethau a bod modelau gwasanaeth wedi gorfod addasu, rydym wedi parhau i ddisgwyl ymateb diogel a chynaliadwy i blant a phobl ifanc yr oedd angen cymorth gwasanaethau iechyd meddwl arnynt.

Er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc wedi cael y cymorth yr oedd ei angen arnynt drwy gydol y pandemig, mae gwasanaethau wedi symud yn gyflymach i ddefnyddio dulliau anhraddodiadol. Gall hyn fod ar draws y GIG (e.e. fideogynadledda Attend Anywhere), arloesi lleol (e.e. adnoddau Seicoleg Cymunedol Gwent a Gwasanaeth Ymlyniad Gwent), ac wedi'i arwain gan Lywodraeth Cymru (e.e. Pecyn Adnoddau Iechyd Meddwl Pobl Ifanc).

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi camu i'r adwy i gyllido gwasanaethau cymorth sydd dan bwysau yn sgil COVID-19, er enghraifft y *Llinell Gymorth Trechu Anhwylderau Bwyta*, sy'n rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl sy'n byw gydag anhwylderau bwyta a'u teuluoedd.

Gwnaeth Llywodraeth Cymru gynnull Grŵp Digwyddiadau Iechyd Meddwl ar ddechrau'r pandemig, ac mae'n cydgysylltu'r broses o flaenoriaethu a sicrhau parhad gofal mewn argyfwng. Cyfarfu holl swyddogion arweiniol clinigol CAMHS o bob bwrdd iechyd bob wythnos hefyd, gan rannu arferion gorau, gwybodaeth a rhoi gwybod am broblemau posibl wrth iddynt ddatblygu. Canolbwyntiodd y ddau grŵp ar barhad gwasanaethau allweddol, gan gynnwys gwasanaethau argyfwng, yn ogystal â datblygu mecanweithiau ar gyfer addasu gwasanaethau a'r cyd-destun gofal sy'n esblygu.

Argymhelliad 16 – Seilwaith digidol: Mynd i'r afael â'r 'bwlch digidol', er mwyn sicrhau bod gan blant a phobl ifanc ledled Cymru fynediad teg at wasanaethau teleiechyd, a sicrhau bod seilwaith TGCh GIG Cymru yn addas i'r diben ac yn gallu cefnogi ffyrdd effeithiol o ddarparu gwasanaethau o bell.

Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu swm sylweddol o fwy na £40m dros y ddwy flynedd ddiwethaf i gefnogi gwelliannau i'r seilwaith, megis seilwaith gweinydd y rhwydwaith, cynyddu lled band, a dyfeisiau symudol. Mae hyn wedi helpu i leihau risgiau etifeddol ac wedi gwella cadernid a diogelwch y seilwaith digidol cenedlaethol.

Mae Gwasanaethau Digidol yn ategu'r GIG modern yng Nghymru, ac mae pandemig COVID-19 wedi tynnu sylw at bwysigrwydd gwasanaethau a systemau digidol modern ac ystywyth wrth ddarparu gwasanaethau lechyd a Gofal.

Gwelwyd ymateb digidol cyflym iawn i COVID-19, a chafodd sawl rhaglen ar gyfer Cymru gyfan ei rhoi ar waith yn genedlaethol o fewn cylch 6-8 wythnos. Ymhlith y rhain roedd gwasanaeth ymgynghori fideo ar gyfer Cymru gyfan, wedi'i arwain gan y Rhaglen Gofal a Alluogir gan Dechnoleg a'i gefnogi gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Ers mis Mawrth 2020, mae dros 170,000 o ymgynghoriadau rhithwir wedi'u cynnal ac mae mwy na 12,000 o weithwyr proffesiynol wedi manteisio ar y gwasanaeth hwn, sydd bellach ar gael ar draws 100 o arbenigeddau ym maes gofal Sylfaenol, Eilaidd a Chymunedol ac sy'n cael ei ymestyn i Ddeintyddiaeth, Fferylliaeth Gymunedol ac Optometreg. Mae'r adborth gan glinigwyr a chleifion yn gadarnhaol iawn.

O fewn y Cynllun Adfer diweddar ar gyfer y GIG yng Nghymru, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai Canolfan TEC yn cael ei chreu i adeiladu ar waith TEC Cymru i gyflwyno gwasanaethau ymgynghori fideo yng Nghymru. Caiff y gwersi a ddysgwyd o'r ymateb i COVID-19 eu cymhwyso at feysydd eraill lle y gall technoleg ddigidol gynnig buddiannau mewn amgylchedd gofal, gan ddarparu gwasanaethau yn nes at y cartref a galluogi pobl i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain am gyfnod hwy.

Rydym wedi buddsoddi mewn cynhwysiant digidol drwy raglen drawslywodraethol Cymunedau Digidol Cymru. Fel rhan o'n hymateb i COVID-19, darparwyd cymorth wedi'i dargedu ychwanegol drwy Cymunedau Digidol Cymru i gyflenwi llechi i breswylwyr cartrefi gofal, ynghyd â hyfforddiant i hwyluso'r defnydd o wasanaethau iechyd, gan gynnwys ymgynghoriadau fideo.

Argymhelliad 17 – Cadernid Meddwl: Parhau i weithredu argymhellion ein hadroddiadau gwreiddiol a dilynol sydd, yng nghyd-destun y pandemig, yn fwy perthnasol nag erioed.

Derbyn

Cyflwynwyd ymateb llawn ar argymhellion Cadernid Meddwl i'r Pwyllgor ar [20 Rhagfyr 2020](#).

Mae sicrhau llesiant emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc wedi bod yn flaenoriaeth drawslywodraethol i'r weinyddiaeth bresennol. Ers 2018, mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac yna'r Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg, a'r Gweinidog Addysg wedi bod yn gweithio gydag arbenigwyr drwy'r Grŵp Cyd-Weinidogol ar Ddull Ysgol Gyfan a System Gyfan o Ymdrin â Llesiant.

Ar 15 Mawrth 2021, gwnaethom gyhoeddi ein fframwaith statudol, sef [Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol](#). Mae'n gosod llesiant wrth wraidd dysgu, ac ochr yn ochr â chyllid o £9m yn 2021-22, bydd yn darparu'r cymorth sydd ei angen ar ddysgwyr nawr, mewn perthynas â'r pandemig, ac yn y tymor hwy.

Argymhelliad 18 – Hunan-niweidio a hunanladdiad: Sicrhau bod gwasanaethau addas ar gael, nawr yn fwy nag erioed, i nodi a chefnogi plant a phobl ifanc sy'n wynebu argyfwng. Mabwysiadu dull cadarn a systematig o ddeall effaith COVID-19 ar lefelau hunan-niweidio, meddyliau hunanladdol, a hunanladdiad ymhlith plant a phobl ifanc, er mwyn cymryd camau lliniaru a sicrhau bod cymorth priodol ar gael.

Derbyn

Lansiwyd y canllawiau [Ymateb i faterion hunan-niweidio a theimladau hunanladdol ymhlith pobl ifanc](#) ym mis Medi 2019. Datblygwyd y canllawiau i athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, megis gweithwyr ieuencid, ac maent yn canolbwyntio ar ymyrryd yn gynnar a rheoli meddyliau am gyflawni hunan-niwed a hunanladdiad yn ddiogel pan fyddant yn codi. Maent yn darparu ffynhonnell gyflym a hygyrch ar gyfer egwyddorion arfer gorau ac yn cyfeirio at ffynonellau eraill o gymorth a chyngor. Caiff y canllawiau eu hailddosbarthu i ysgolion yn fuan drwy DYSG, sef cylchlythyr addysg a hyfforddiant i Gymru.

At hynny, cytunodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ymestyn Siarad â Fi 2 tan 2022, yn unol ag amserlenni Cynllun Cyflawni newydd 2019-2022: Law yn Llaw at Iechyd Meddwl. Mae'r cynllun yn cynnwys nifer o gamau gweithredu i atal hunanladdiad a hunan-niwed. Caiff y cynllun gweithredu, sy'n ategu Siarad â Fi 2, ei oruchwylio gan y Grŵp Cyngori Cenedlaethol, sy'n dwyn ynghyd randdeiliaid o'r trydydd sector, Llywodraeth Cymru, yr heddlu, y GIG, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac arbenigwyr ym maes atal hunanladdiad a meysydd eraill.

Yn dilyn diwygio'r Cynllun Cyflawni, aethpwyd ati'n ffurfiol i adrodd ar y camau gweithredu ym mis Ebrill 2021, chwe mis ar ôl ei gyhoeddi. Fodd bynnag, byddem yn disgwyl bod byrddau iechyd eisoes wedi mynd ar drywydd y camau gweithredu mewn ymateb i'r adroddiadau unigol a gawsant fel rhan o Adolygiad Uned Cyflawni'r GIG o Gynlluniau Gofal a Thriniaeth.

O ran apwyntiadau dilynol ar ôl rhyddhau cleifion, rydym yn disgwyl i fyrddau iechyd ddilyn argymhellion yr Ymchwiliad Cyfrinachol Cenedlaethol i Hunanladdiad a Dynladdiad gan Bobl â Salwch Meddwl. Mae hyn yn cynnwys apwyntiadau dilynol ar ôl eu rhyddhau o ofal cleifion mewnol.

Yn 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Addysg £40,000 o gyllid i Brifysgol Abertawe wneud gwaith ymchwil ar ddatganiadau ar-lein o'r bwriad i gyflawni hunanladdiad a hunan-niwed a'r cysylltiad rhwng hynny â bwlio ar-lein. Caiff y gwaith ei gwblhau yn ystod haf 2021, a bydd yn cynnwys gwaith cydgynhyrchu helaeth ac yn arwain at adnodd pellach i bobl ifanc ac eraill sy'n wynebu'r problemau hyn.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru Uned Cyflawni'r GIG i weithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Athro Ann John i adolygu nifer y marwolaethau o ganlyniad i achosion tebygol o hunanladdiad a hunan-niwed rhwng 2015 a 2020 ymhlith pobl ifanc hyd at 25 oed. Gwnaed hyn mewn ymateb uniongyrchol i bryderon am effaith bosibl COVID-19 a'r cyfyngiadau ar bobl ifanc. Rydym eisoes wedi rhannu canfyddiadau'r adolygiad â'r Pwyllgor ac wedi ymrwmo i barhau i wneud rhagor o waith goruchwylio penodol yn ystod y cyfnod hwn. Rydym hefyd yn gweithio gyda'r

heddlu a chrwneriaid i ystyried y cyfleoedd i wella prosesau rhannu data, a byddwn yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar y gwaith hwn maes o law.

Efallai na fydd unrhyw gynnydd posibl yn nifer yr achosion o hunanladdiad ymhlith pobl ifanc yn amlwg tan y caiff dadansoddiad ffurfiol o dueddiadau ei gynnal yn y tymor canolig pan ddaw data ar gael. Tasg gymhleth fydd penderfynu i ba raddau y mae COVID-19 yn ffactor allweddol sy'n cyfrannu at unrhyw gynnydd posibl yn nifer yr achosion. Fodd bynnag, mae cryn dystiolaeth i ddangos y bydd cwarantîn, cyfyngiadau lleol a chenedlaethol, ac ynysu cymdeithasol yn fwy cyffredinol, wedi arwain at fwy o ffactorau risg a llai o ffactorau amddiffynnol. Ochr yn ochr â'r ansicrwydd economaidd parhaus, deallwn fod yn rhaid inni wneud popeth posibl i atal mwy o risg o hunanladdiad ymhlith pobl ifanc.

Mae atal a'r gallu i ymyrryd yn gynnar yn allweddol. Dyma'r rheswm pam rydym wedi atgyfnerthu'r gwasanaethau cymorth Haen 0/1 yn sylweddol, ochr yn ochr ag amrywiaeth o ddulliau gweithredu rhanbarthol i leihau nifer yr achosion o hunanladdiad a hunan-niwed, gan gynnwys cymorth profedigaeth, hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth.

Argymhelliad 19 – Iechyd meddwl a lles myfyrwyr: sicrhau bod y ddarpariaeth yn ddigonol ac yn diwallu anghenion penodol pob dysgwr. Rhaid i'r ddarpariaeth iechyd meddwl fod yn fwy cyson rhwng addysg cyn 16 oed ac ar ôl 16 oed, ac ar draws gwahanol ddarparwyr, er mwyn hwyluso'r broses i ddysgwyr pan fyddant yn trosglwyddo o'r naill i'r llall.

Derbyn

Mae ein fframwaith ar ymgorffori dull system gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol yn nodi bod pontio rhwng lleoliadau yn adeg a all achosi cryn ansefydlogrwydd i rai dysgwyr.

I ddysgwyr iau, bydd pwysigrwydd cymorth yn ystod y blynyddoedd cynnar, a sefydlu partneriaethau rhwng rhieni/gofalwyr a lleoliadau addysg o'r cychwyn cyntaf, yn helpu i wneud y broses yn fwy esmwyth. Ar y llaw arall, mae'r Fframwaith yn nodi bod pontio rhwng yr ysgol a'r gweithlu neu Addysg Bellach/Uwch yn adeg sy'n achosi straen a phryder, ac yn argymhell y dylid cynnig cymorth llesiant ychwanegol i ddysgwyr yn ystod eu blwyddyn olaf yn yr ysgol. Dylai ysgolion weithio gyda phartneriaid, er enghraifft darparwyr AB, gan sicrhau eu bod yn cynllunio ymhell o flaen llaw er mwyn helpu dysgwyr i bontio'n ddiraffferth a chydabod anghenion penodol dysgwyr sy'n agored i niwed yn benodol. Bydd cynnwys y dysgwr a'i rieni/gofalwr yn y broses yn sicrhau y gellir diwallu eu hanghenion.

Ymhlith y pwyntiau pontio eraill mae pontio rhwng gwasanaethau iechyd (gan gynnwys dysgwyr hŷn yn symud o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion), lle y gall y ffactorau allanol hyn achosi gorbryder, gofid a thrallod, a all gael eu gweld yn yr ystafell ddosbarth. Gall y ffaith nad yw ysgolion yn cael eu cynnwys ar gam digon cynnar, os o gwbl, waethygu'r sefyllfa, ac mae angen i ysgolion a gwasanaethau iechyd weithio mewn ffordd gydgyssylltiedig.

Mae cynllun gweithredu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yn cefnogi dulliau tracio cryfach ac yn helpu pobl ifanc i bontio drwy'r system, yn enwedig ar y cam cyn- ac ôl-16. Ar hyn o bryd, caiff y Fframwaith ei gefnogi gan y Grant Cymorth Ieuenctid, a delir i awdurdodau lleol ac sy'n cyllido gweithgarwch gwaith ieuenctid yn ogystal â gweithgarwch sy'n gysylltiedig â'r Fframwaith. Mae hyn yn cynnwys £2.5m i fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag iechyd a llesiant meddyliol ac emosiynol drwy waith ieuenctid, a £3.7m gan y Prif Grŵp Gwariant Tai a Llywodraeth Leol i atal digartrefedd ymhlith pobl ifanc.

Argymhelliad 20 – Cymorth ar gyfer dysgu: Sicrhau bod dysgwyr a myfyrwyr sydd wedi profi bylchau yn eu dysgu oherwydd y pandemig yn cael eu cefnogi. Yn benodol, fel ei rheoleiddiwr a'i phrif gyllidwr, rhaid i Lywodraeth Cymru roi'r cyllid a'r hyblygrwydd y bydd eu hangen ar y sector addysg bellach dros y blynyddoedd i ddod i helpu dysgwyr i oresgyn y tarfu y maent wedi'i wynebu ar ôl iddynt bontio o'r ysgol a/neu cyn iddynt symud ymlaen y tu hwnt i addysg bellach.

Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cyhoeddi nifer o ymyriadau i gefnogi'r garfan bresennol o ddysgwyr sy'n symud ymlaen i addysg ôl-16 yn 2021/22.

Yn y lle cyntaf, mae nifer o adnoddau ar-lein wedi'u creu, a bydd hyn yn cael ei ategu gan raglenni pontio wedi'u teilwra i fyfyrwyr blwyddyn 11 sy'n pontio i flwyddyn 12, myfyrwyr blwyddyn 12 sy'n pontio i flwyddyn 13 a myfyrwyr blwyddyn 13 sy'n pontio i addysg bellach ac uwch neu gyflogaeth. Dyluniwyd y rhaglenni pontio hyn ar y cyd â darparwyr ôl-16 a'r consortiwm, a byddant yn rhoi'r hyblygrwydd i ddarparwyr gyflwyno pob rhaglen i ddiwallu anghenion unigol.

Mae £33m ychwanegol wedi'i gymeradwyo er mwyn helpu i wella addysg ôl-16 a chefnogi dysgwyr sy'n pontio iddi yn 2021-22. Caiff dyraniad y cyllid hwn a'r canllawiau ar ei gyfer eu llywio gan ganlyniadau adolygiad cyflym sy'n cael ei gynnal gan Estyn a gweithgorau yn y sector i nodi anghenion newidiol dysgwyr.

Argymhelliad 21 – Paratoi dysgwyr ar gyfer byd gwaith: Cefnogi a galluogi profiadau, lleoliadau a chyfleoedd ehangach i ddatblygu sgiliau bywyd sydd nid yn unig yn cyfoethogi bywydau dysgwyr a myfyrwyr unigol, ond sydd hefyd yn cynnig cyfleoedd pwysig i'w paratoi ar gyfer byd gwaith, ac i wella eu sefyllfa mewn bywyd.

Derbyn

Mae gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â gwaith yn un o themâu trawsbynciol y Cwricwlwm newydd i Gymru, a hynny, am y tro cyntaf, drwy'r continwmm dysgu 3-16 oed cyfan. Gwnaethom gydnabod bod angen mwy o gymorth ar ysgolion y tu hwnt i'r canllawiau a gyhoeddwyd ar 28 Ionawr 2020, yn enwedig gan y bydd yr agwedd hon ar y cwricwlwm yn orfodol. Dyna'r rheswm pam rydym yn ymrwymedig i weithio gydag ymarferwyr ac arbenigwyr i lunio canllawiau ychwanegol ar yrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â gwaith, y bydd y Gweinidog newydd yn ymgynghori arnynt.

Drwy hyn, bydd y cwricwlwm newydd yn ategu'r broses o archwilio cyfleoedd sy'n helpu dysgwyr i ddeall y gydberthynas rhwng eu dysgu a byd gwaith. Mae dysgu am yrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â gwaith yn hollbwysig i feithrin sgiliau ar gyfer bywyd a gwaith. Bydd y canllawiau estynedig yn helpu i ddarparu amrywiaeth o ddysgu, gan ddwyn ynghyd amrywiaeth o brofiadau, gwybodaeth a sgiliau a fydd yn helpu dysgwyr i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am eu llwybrau gyrfa. Nod y profiadau fydd ehangu gorwelion mewn perthynas â'r hyn sy'n bosibl, a dylent roi cyngor o ansawdd uchel ar sgiliau a llwybrau gyrfa, gan godi dyheadau'r rhai na fyddent fel arall yn ystyried opsiynau penodol sydd ar gael.

Mae effaith COVID-19 wedi golygu na fu modd cynnal digwyddiadau ffisegol ar raddfa fawr. Yn lle hynny, gwnaethom ddefnyddio sianeli digidol i gynnal digwyddiadau rhithwir a allai agor drysau i gynulleidfaoedd newydd a mwy o faint. Ym mis Gorffennaf 2020, cynhaliwyd Digwyddiad Agored Rhithwir i fyfyrwyr Blwyddyn 11 mewn partneriaeth â Cymru'n Gweithio-Gyrfa Cymru, gan ddwyn ynghyd 30 o ddarparwyr ôl-16 o'r pedwar rhanbarth dros bedwar diwrnod. Lluniwyd cynnwys y digwyddiad drwy ymgysylltu â 220 o ddarparwyr a chafodd ei gyhoeddi yn ystod cyfnod yr ymgyrch.

Llwyddodd y digwyddiad i gyrraedd bron tair miliwn o bobl, ysgogi 12,000 o bobl i gyrchu deunyddiau a chynnwys gwefan Cymru'n Gweithio-Gyrfa Cymru, a denu dros 1,300 o bobl i gymryd rhan yn y sesiynau rhanbarthol byw.

Argymhelliad 22 – Dysgu galwedigaethol ac academaidd: Parhau i weithio tuag at sicrhau "parch cydradd" rhwng dysgu galwedigaethol ac academaidd, a chyflwyno'r newidiadau beiddgar sy'n debygol o fod yn ofynnol i gyflawni hyn.

Derbyn

Cynhaliwyd nifer o weithgareddau cyn ac yn ystod y pandemig i fynd ar drywydd Ymrwymiad Ffyniant i Bawb er mwyn sicrhau cyfnod pontio didrafferth rhwng llwybrau galwedigaethol, technegol ac academaidd, a sicrhau bod llwybrau'n glir, yn diwallu anghenion dysgwyr ac yn ystyried blaenoriaethau economaidd a chymdeithasol Cymru:

- mae prosesau Cynllunio a Chyllido'r Cwricwlwm ar gyfer Sefydliadau Addysg Bellach, Dosbarthiadau Chwech Awdurdodau Lleol a Dysgu Oedolion yn y Gymuned wedi'u cysoni;
- casglwyd cyngor ar bolisi sy'n ystyried nodweddion allweddol systemau cynnydd effeithiol mewn addysg ôl-16 er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu polisi.
- Mae Adolygiad Thematig diweddar Estyn o'r adroddiad [Partneriaethau ôl-16 – Cynllunio a darpariaeth ar y cyd rhwng ysgolion, a rhwng ysgolion a cholegau](#) wedi rhoi nifer o argymhellion i fynd ar drywydd gwaith i wella'r cydweithio rhwng darparwyr er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn deall yr holl opsiynau ôl-16 sydd ar gael iddynt, a gwella'r broses bontio i ddysgu ôl-16;
- Mae'r ymgysylltu ag Adran Addysg Llywodraeth y DU wedi parhau er mwyn pennu goblygiadau diwygio addysg dechnegol ôl-16 yn Lloegr i Gymru.

Caiff y gweithgareddau hyn eu dwyn ynghyd yn unol â chyfeiriad polisi'r Comisiwn ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil i bennu map ffordd ar gyfer tymor nesaf y llywodraeth.

Argymhelliad 23 – Cyllid pwysau'r pandemig: Dysgu—a monitro'r canlyniadau-o'r ymyriadau ariannu sylweddol a wnaed yn y ddau sector o ganlyniad i bwysau'r pandemig. Mae angen rhoi sylw arbennig i effaith y cyllid ar gyfer cefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed, a'r rhai y mae'r pandemig yn fwy tebygol o fod wedi effeithio arnynt. Mae'r buddsoddiadau hyn wedi creu cyfleoedd i ddeall a nodi dulliau arloesol ac i rannu'r gwersi a ddysgwyd ar draws y sector addysg.

Derbyn

Ym mis Chwefror eleni, gwnaethom gyhoeddi £9.8 miliwn ychwanegol i gefnogi Anghenion Dysgu Ychwanegol yn 2020-21, yn benodol mewn ymateb i'r pwysau a wynebwyd yn sgil pandemig COVID-19. Roedd hyn yn ychwanegol at yr £8 miliwn a gyhoeddwyd y llynedd a'r pecyn cymorth gwerth £20 miliwn ar gyfer y Rhaglen Trawsnewid ADY sydd eisoes ar waith ar gyfer tymor presennol y Senedd, ac mae'n cydnabod yr anawsterau penodol i blant a phobl ag anghenion ychwanegol yn ystod COVID-19.

Disgwylir y bydd y cyllid hwn yn cael effaith sylweddol ar yr ôl-groniad o asesiadau sydd wedi deillio o'r pwysau a wynebwyd yn sgil pandemig y coronafeirws. Bydd awdurdodau lleol yn cyflwyno adroddiadau terfynol lefel uchel ar ddiwedd y cyfnod cyllido yn disgrifio sut y defnyddiwyd y cyllid.

Yn dilyn pennu amrywiaeth o gymorth ar gyfer dysgu ôl-16, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Estyn i gynnal adolygiad cyflym er mwyn nodi'r dulliau gweithredu a ddefnyddir gan golegau a dosbarthiadau chwech ysgolion i ddarparu cymorth a gweithgareddau pontio'r cwricwlwm i ddysgwyr sy'n cofrestru ar gyfer darpariaeth ôl-16 ym mlwyddyn academaidd 2020/21. Bydd canlyniadau'r adolygiad hwn yn llywio'r broses o ddyrannu a defnyddio'r cyllid ychwanegol a nodwyd i helpu i wella addysg yn 2021/22.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu dros £10 miliwn o gyllid cyfalaf ers mis Gorffennaf 2020 er mwyn helpu darparwyr dysgu Ôl-16 (gan gynnwys darpariaeth sefydliadau addysg bellach, rhaglenni dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion yn y gymuned) i gefnogi dysgwyr sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol i barhau i ddysgu o bell pan nad ydynt wedi gallu defnyddio cyfleusterau ar y safle yn ystod pandemig COVID-19. Caiff adroddiad cryno ar y cyllid hwn ar gyfer cynhwysiant digidol ei baratoi yn ystod gwanwyn 2021.

Wrth i ddysgu cyfunol ddod yn rhan annatod o ddarpariaeth dysgu yn y dyfodol, bydd angen datblygu rhagor o fodelau cynaliadwy ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith a chyfarpar digidol ar y cyd â'n darparwyr dysgu.

Argymhelliad 24 – Addysg bellach ac addysg uwch fel asedau yn adferiad cyffredinol Cymru: Mynd ati i ariannu a rhoi'r sectorau addysg bellach ac uwch mewn sefyllfa i gyflawni eu potensial i chwarae rhan hanfodol yn adferiad Cymru a'i phobl ar ôl COVID-19. Mae gan sector addysg ôl-16, sy'n werth biliynau o bunnoedd ac a all drawsnewid cyfleoedd bywyd bron i 300,000 o ddysgwyr bob blwyddyn, ac sy'n ymwneud â chymaint o'r gweithgarwch sy'n sbarduno ffyniant, rôl enfawr i'w chwarae yn ein hadferiad. Rhaid manteisio i'r eithaf ar yr ased enfawr hwn i Gymru. Dylai unrhyw ddiwygiad i'r system addysg drydyddol yn y dyfodol ystyried hyn.

Derbyn

Bydd ein prifysgolion a cholegau yn chwarae rôl hanfodol i helpu Cymru i adfer o'r pandemig. Mae hynny'n cynnwys eu rôl hollbwysig i gefnogi'r economi sylfaenol, adeiladu ar eu gwaith presennol gyda phartneriaid megis byrddau gwasanaethau cyhoeddus, elusennau ac ysgolion, yn ogystal â sefydliadau cenedlaethol a'r llywodraeth, sydd wedi bod mor bwysig i gyfraniad y sector addysg uwch a'r sector addysg bellach i'r pandemig.

Mae ein prifysgolion, CCAUC a Cyllid Myfyrwyr Cymru wedi cydweithio i gyflawni'r achrediad Cyflog Byw Gwirioneddol cyntaf i'r sector addysg uwch yng Nghymru, ac wedi cyflawni hyn cyn llawer o'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Er nad yw pob coleg yn meddu ar achrediad Cyflog Byw Gwirioneddol, mae pob coleg Addysg Bellach a sefydliad dynodedig wedi ymrwymo i egwyddorion y cyflog byw gwirioneddol ar gyfer pob un o'i gyflogeion uniongyrchol. Fel rhan o'i hadolygiad blynyddol o gyflogau diweddar, mae Colegau Cymru wedi atgoffa ei haelod-Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru o'u hymrwymiad i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol, ac mae achrediad yn rhywbeth y mae'r sector yn parhau i'w ystyried.

Bydd cefnogi adferiad ein heconomi yn ffocws allweddol yng ngwaith CCAUC yn ystod y flwyddyn i ddod, gan adeiladu ar waith ei Grŵp Edrych tua'r Dyfodol. Gofynnwyd i'r cyngor weithio gyda'r sector addysg bellach i ystyried pa gyfleoedd y gellir eu creu i gefnogi graddedigion, gweithwyr ar ffyrlo a phobl eraill y mae'r pandemig wedi cael effaith negyddol arnynt gyda chyfleoedd i ailhyfforddi, ailsgilio neu gael addysg uwch, a hynny o bosibl am y tro cyntaf. Mae hynny'n cynnwys helpu i ddatblygu cyrsiau modiwlaidd byr sy'n gyson â'r angen economaidd i greu cyfleoedd mwy hyblyg i unigolion ailhyfforddi, ailsgilio neu newid gyrfaoedd.

Ym maes addysg bellach, mae ymateb i effeithiau'r pandemig a pharatoi ar gyfer adferiad yr economi yn flaenoriaeth i golegau a Colegau Cymru. Mae ein colegau wrthi'n gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a sefydliadau dyfarnu, yn ogystal ag ysgolion a phrifysgolion partner, i sicrhau bod dysgwyr yn pontio'n ddidrafferth i addysg bellach ac uwch. Bydd hyn yn cynnwys pontio unrhyw fylchau yn addysg y dysgwr a chefnogi ei lesiant o ganlyniad i effaith y cyfyngiadau symud a'r amser dysgu wyneb yn wyneb a gollwyd.

Mae colegau hefyd wedi bod yn darparu'r rhaglen Cyfrif Dysgu Personol gwerth £15.5m i ddarparu cymorth i bobl gyflogedig, gweithwyr ar ffyrlo ac unigolion y mae COVID-19 wedi cael effaith negyddol arnynt. Mae'r rhaglen wedi helpu pobl i feithrin sgiliau a chymwysterau lefel uwch mewn sectorau â blaenoriaeth, gan rymuso

unigolion i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu. Mae'r dull gweithredu hwn yn cynnig cyfleoedd i bobl newid gyrfaoedd neu uwchsgilio yn eu galwedigaeth ddewisol.

Mae'r pandemig wedi tynnu sylw at y rôl bwysig y mae ein sefydliadau'n ei chwarae wrth ddatblygu a chynnal cymunedau hyddysg, cydnerth sy'n ffynnu. Rydym yn cydnabod ac yn parhau i annog y gwaith y mae'r sector addysg uwch yng Nghymru eisoes wedi ei wneud i ddatblygu gweithgareddau cenhadaeth ddinesig ar draws sefydliadau, wedi'u dwyn ynghyd drwy Rwydwaith Cenhadaeth Ddinesig a Fframwaith Cenhadaeth Ddinesig cenedlaethol unigryw.

Wrth inni ddod allan o'r pandemig, rydym yn wynebu heriau yn ogystal â chyfleoedd i adfywio ac ailystyried yr arlwy addysg bellach. Ym mis Tachwedd, gwnaethom gyhoeddi ein [datganiad o weledigaeth](#) cyffredinol ar gyfer y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, sy'n rhoi crynodeb o'r heriau rydym yn eu hwynebu ac yn amlinellu'r egwyddorion a fydd yn llywio ein taith tuag at eu hateb. Mae'r heriau y mae'r economi a'r sector addysg yng Nghymru yn eu hwynebu yn sgil COVID-19 yn golygu ei bod yn bwysicach nag erioed ein bod yn goruchwyllo addysg drydyddol mewn modd strategol, cydlynol ac effeithlon, drwy un Comisiwn.

Yn amodol ar ddeddfwriaeth, bydd gan y Comisiwn newydd ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil bwerau cyllido, cynllunio a rheoleiddio helaeth, gan ei alluogi i wella ansawdd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ym mhob rhan o'r sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol. Bydd yn sicrhau bod ein sector addysg drydyddol ac ymchwil yn barod i ddiwallu anghenion dysgwyr, yr economi a chenedl Cymru gyfan. Bydd yn gyfrifol am gysoni addysg drydyddol a hyfforddiant yn agosach ag anghenion cyflogwyr yng Nghymru, gan helpu i greu economi gryfach ar gyfer y dyfodol. Bydd yn cydweithio â phob rhan o'r sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol i wella deilliannau unigol a chenedlaethol.

Hyd yma, mae nifer o ymgynghoriadau wedi'u cynnal â rhanddeiliaid yn y sector, gan gynnwys un ynghylch Bil Addysg Drydyddol a Hyfforddiant (Cymru) Drafft, yn dilyn penderfyniad y Llywodraeth flaenorol i ohirio'r Bil yn sgil heriau COVID-19. Roedd hyn yn gyfle pellach i archwilio'r cynigion polisi manwl ar gyfer diwygio addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, gan ofyn cwestiwn penodol i'r rhanddeiliaid am effaith y pandemig ar y cynigion a geir yn y Bil Drafft. Mae hyn wedi golygu bod y gwaith o ddiwygio addysg a hyfforddiant ôl-orfodol wedi elwa ymhellach ar brofiad y sector o COVID-19.

Argymhelliad 25 – Dysgu digidol a chyfunol: Deall, rhannu a harneisio manteision dysgu digidol a chyfunol ar draws y sector addysg ôl-16. Er bod dysgu cyfunol a digidol wedi cyflwyno heriau sylweddol i sefydliadau ac i ddysgwyr, mae ganddo hefyd gryn botensial i wella profiad dysgu a chanlyniadau addysgol dysgwyr os cânt eu defnyddio'n briodol. Mae'r ymateb i'r pandemig wedi tarfu'n fawr, ond mae cyfle digynsail hefyd i lansio rhaglen strwythuredig ar draws y sector i ddysgu o'r profiad, i wella dysgu, ac i wella sgiliau digidol pobl Cymru.

Derbyn

Mae nifer o weithgareddau i gasglu data, profiadau dysgwyr a darparwyr ac enghreifftiau o ymarfer sy'n gysylltiedig â'r pandemig, a thrafod dyfodol dysgu wrthi'n mynd rhagddynt yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol.

Bydd y sail dystiolaeth gynyddol hon yn cyfrannu at waith parhaus gyda'r sector i ystyried sut y gellir integreiddio ac ymwreiddio technoleg ddigidol yn y ddarpariaeth i wella profiadau dysgwyr, a sut y gellir meithrin sgiliau a hyder digidol dysgwyr a staff, o dan ein fframwaith strategol deng mlynedd presennol ar gyfer dysgu digidol yn y sector Ôl-16: [2030 Digidol](#).

Rydym yn cydnabod bod cyfleoedd sylweddol i barhau i brif-ffrydio modelau dysgu cyfunol a digidol yn y sector ôl-16, a bod cryn frwdfrydedd ac arbenigedd yn y sector y gellir manteisio arnynt.

Mae ein cyllid grant blynyddol i'r Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth (JISC) yn galluogi darparwyr dysgu ôl-16 yng Nghymru i fanteisio ar amrywiaeth o wasanaethau, cymorth ac arbenigedd a ddarperir gan Jisc, gan gynnwys gweithgareddau penodol o dan Digidol 2030, ac i fanteisio ar ymchwil ehangach a gwaith arwain agweddau. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi datblygiad proffesiynol staff sy'n gweithio yn y sector Ôl-16 i feithrin eu sgiliau a'u hyder digidol wrth ddefnyddio technolegau sy'n briodol ar gyfer eu gweithgareddau addysgu a dysgu. Mae hyn yn cynnwys rhoi cyllid uniongyrchol i brosiectau datblygiad proffesiynol a arweinir gan y sector unigol a chydweithredol yn y sector addysg bellach a'r sector dysgu oedolion, a manteisio ar arbenigedd a chymorth arbenigol gan JISC.

Mae [adroddiad thematig](#) diweddar Estyn ar ddysgu ôl-16 o bell a chyfunol wedi rhoi cyfres o argymhellion a phwyntiau trafod i helpu i lywio ein gwaith gyda'r sector i ddatblygu dull mwy cynaliadwy o ymdrin â dysgu digidol.

O ran y pwynt ehangach yn ymwneud â sgiliau digidol, mae'r [Strategaeth Ddigidol i Gymru](#) a gyhoeddwyd yn ddiweddar, yn nodi gweledigaeth genedlaethol ar gyfer mabwysiadu dull digidol ar y cyd ledled Cymru, ac yn nodi Sgiliau Digidol yn un o'r chwe chenhadaeth a fydd yn ysgogi gwaith ymgysylltu a chyflawni gyda rhanddeiliaid. Y nod yw creu gweithlu sy'n meddu ar y sgiliau, y gallu a'r hyder digidol i ragori yn y gweithle ac ym mywyd pob dydd. Mae'r cynllun cyflawni ategol yn nodi'r camau gweithredu i'w rhoi ar waith nawr, nesaf ac yn y dyfodol o dan y genhadaeth Sgiliau Digidol.

Argymhelliad 26 – Diogelu: Parhau i fonitro lefelau atgyfeiriadau diogelu a nifer y plant y mae angen gofal a chymorth arnynt, gan gynnwys ymateb i unrhyw newidiadau o ganlyniad i'r pandemig (e.e. oherwydd tlodi, esgeulustod, neu drais domestig).

Derbyn

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro lefelau atgyfeiriadau diogelu a nifer y plant y mae angen gofal a chymorth arnynt. Drwy gydol y pandemig, ymgysylltwyd yn agos â Chadeiryddion a Rheolwyr Busnes Byrddau Diogelu, Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol er mwyn sicrhau bod niferoedd yr atgyfeiriadau diogelu yn cael eu monitro a'u hadolygu. Bydd y gwaith ymgysylltu â phartneriaid yn parhau er mwyn nodi unrhyw newidiadau i lefelau atgyfeirio.

Ar ddechrau cyfnod y cyfyngiadau symud, bu lleihad amlwg yn nifer yr adroddiadau diogelu a wnaed i Wasanaethau Cymdeithasol Plant am blant a oedd yn wynebu risg. Mae'r sefyllfa hon wedi gwella'n raddol ac mae'r cyfraddau atgyfeirio wedi dychwelyd i'r lefelau disgwylidig yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol. Erbyn hyn, mae rhai awdurdodau lleol yn cael mwy o atgyfeiriadau o gymharu â'r adeg hon y llynedd.

Caiff data pwyntiau adolygu wythnosol gwasanaethau cymdeithasol eu casglu gan bob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru, gan gynnig dull effeithiol o fonitro'r sefyllfa'n barhaus. Mae'r gwaith o gasglu'r data hyn wedi bod yn mynd rhagddo ers canol mis Ebrill 2020, a bydd yn parhau.

Argymhelliad 27 – Cymorth i deuluoedd: Monitro a chefnogi effeithiolrwydd gwasanaethau a dulliau o gefnogi teuluoedd ac atal plant rhag dod i mewn i'r system ofal, gan gynnwys monitro nifer y plant sydd wedi bod mewn gofal yng nghyd-destun y nodau i leihau'r niferoedd hyn mewn modd diogel. Datblygu strategaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, er enghraifft y gwaith o ddatblygu Llys Cyffuriau ac Alcohol peilot i Deuluoedd yng Nghymru, a chanfyddiadau ymchwil Arsyllfa Cyfiawnder Teulu Nuffield yng Nghymru.

Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd darparu cymorth er mwyn galluogi teuluoedd sy'n agored i niwed i aros gyda'i gilydd yn ddiogel. Er mwyn cefnogi gwasanaethau cymdeithasol plant, cadw teuluoedd gyda'i gilydd a lliniaru effaith COVID-19, rydym wedi buddsoddi bron £8.5m o arian o gronfa wrth gefn COVID-19. Mae hyn yn cynnwys arian i gefnogi gweithgarwch ailuno, cymorth i ofalwyr maeth, cynadleddau ar gyfer grwpiau teuluol a chronfa caledi COVID-19 i'r rhai sy'n gadael gofal.

Mae'r niferoedd cynyddol o blant mewn gofal wedi bod yn broblem sydd wedi gwaethygu ers sawl blwyddyn, ac yn 2019, cyflwynodd Prif Weinidog Cymru raglen dair blynedd o Gynlluniau Lleihau Disgwyliadau fel ymateb uniongyrchol i'r mater hwn. Nod Cynlluniau Lleihau Disgwyliadau yw ailgydbwysu'r system a chefnogi teuluoedd i ofalu am eu plant eu hunain, gan gynnwys ymgymryd â gweithgarwch ailuno ychwanegol, er mwyn galluogi plant i ddychwelyd adref pan fydd materion teuluol wedi'u datrys.

Ym Mlwyddyn 1 (2019-20), cynyddodd nifer y plant sy'n derbyn gofal 4%. Fodd bynnag, o gymharu â chynnydd o 7% ym mhob un o'r tair blynedd blaenorol, roedd y gyfradd gynyddu wedi gostwng. Hyd yma ym Mlwyddyn 2 (hyd at chwarter 2 yn 2020-21), mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu 2.2% arall, sy'n dangos bod y cynnydd yn arafu eto, yn wyneb her COVID-19.

Serch hynny, mae lle i fod yn optimistig, gan fod ystadegau swyddogol ar gyfer 2019-20 yn dangos gostyngiad o 7% yn nifer y plant sy'n dod yn rhan o'r system ofal. Dyma'r gostyngiad mwyaf dros y blynedd diwethaf ac mae'n cyd-daro â chyflwyno'r gwaith i leihau disgwyliadau. Bu gostyngiad hefyd yn 2017-18 (3%) a 2018-19 (2%). Gwyddom fod llai o blant yn gadael gofal yn ystod COVID-19, ac mae hyn yn helpu i gyfrannu at y niferoedd cynyddol o blant sy'n derbyn gofal, er bod y cynnydd hwnnw wedi arafu.

2021-22 fydd y drydedd flwyddyn adrodd, a'r olaf, mewn perthynas â'r cynlluniau lleihau disgwyliadau, ac rydym wedi sefydlu Bwrdd Goruchwylio i gefnogi awdurdodau lleol ymhellach wrth iddynt gyflawni eu cynlluniau. Bydd y Bwrdd Goruchwylio yn arwain ar nifer o feysydd gwaith, gan gynnwys:

- Datblygu rhaglen Dysgu a Gwella a'i rhoi ar waith, gan gynnwys hwyluso Fframwaith Dysgu gan Gymheiriaid Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan a rhwydwaith dysgu gan gymheiriaid i rannu ymarfer a dysgu ar draws y system gyfan.

- Cyflwyno cyfres o seminarau gyda Gofal Cymdeithasol Cymru a phartneriaid i gefnogi llesiant y gweithlu, dulliau gweithredu seiliedig ar gryfderau a sesiynau ar fodolau ymarfer penodol megis teuluoedd cadarn ac ailuno. Hyd yma, mae nifer o seminarau rhithwir wedi'u cynnal ar Gynadleddau Grwpiau Teuluol, Eiriolaeth Rhieni ac atal babanod newydd-anedig rhag mynd yn rhan o'r system ofal, ac maent wedi bod yn boblogaidd iawn.
- Mae'r Tîm Trawsnewid a Chymorth wedi cynnal sesiynau dal i fyny ag awdurdodau lleol (Caerdydd, Wrecsam a Thorfaen) i nodi:
 - gwersi a ddysgwyd a gwelliannau i wasanaethau i'w rhannu ledled Cymru
 - cymorth pellach sydd ei angen ym mhob rhan o'r system i hyrwyddo gweithgarwch adfer teuluoedd a chefnogi plant i aros gyda'u teuluoedd

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n sefydlu Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol Peilot yng Nghymru, yn weithredol o 2020 i 2023 ac wedi'i gefnogi gan y Ganolfan er Cyfiawnder Arloesi. Yn dilyn datganiadau o ddiddordeb, dyfarnwyd y peilot i Fwrdd Cyfiawnder Teuluol Lleol De-ddwyrain Cymru.

Caiff y peilot ei werthuso gyda'r nod o ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd i gefnogi'r gwaith o ymestyn y model Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol i ardaloedd eraill. Mae tystiolaeth gadarn fod y model Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol yn cael effaith gadarnhaol o ran ailuno teuluoedd, rhoi'r gorau i gamddefnyddio sylweddau, osgoi achosion mynych ar gyfer yr un plentyn neu blant dilynol, a lleihau'r angen am ofal.

Mae'r gwaith ar y cam cynllunio, a disgwylir i weithgarwch ac achosion gychwyn yn hydref 2021. Bydd hyn yn ysgogi dull llys datrys problemau o ymdrin ag achosion gofal, y gall rhieni ei ddewis yn lle mynd drwy achos llys safonol. Mae'r ymchwil ddiweddaraf, gan gynnwys gwaith ymgysylltu â Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ac Arsyllfa Cyfiawnder Teulu Nuffield, yn parhau i lywio'r gwaith parhaus o leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru.

Argymhelliad 28 – Rhianta corfforaethol: Rhoi sylw penodol i'r cymorth rhianta corfforaethol i blant sydd wedi bod mewn gofal, gan ganolbwyntio'n benodol ar weithio ar draws portffolios Llywodraeth Cymru i adlewyrchu'r angen am gymorth ymhlith plant sydd wedi bod mewn gofal gyda'u haddysg a'u hiechyd meddwl.

Derbyn

Cyflwynwyd Papur Cabinet a chytunwyd arno yn 2019, yn nodi ein nod o atgyfnerthu rôl rhianta corfforaethol awdurdodau lleol a rhoi mwy o gyfrifoldebau i wasanaethau cyhoeddus. Er mwyn helpu i roi cynigion ar waith, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen, wedi'i gadeirio gan David Melding AS ac yn cynnwys aelodau o'r Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Wella Canlyniadau i Blant. Cyfarfu'r grŵp ddwywaith a chynhaliodd ddigwyddiad i randdeiliaid, yn cynnwys plant â phrofiad o fod mewn gofal, ym mis Ionawr 2020.

Cytunwyd ar ffordd ymlaen glir, ond mae COVID-19 wedi effeithio ar y gwaith a gynlluniwyd. Cytunwyd yn gyffredinol na fyddai'n adeg iawn i gynnal digwyddiadau ymgysylltu a gofyn i gyrff cyhoeddus ymgymryd â chyfrifoldebau rhianta corfforaethol ychwanegol yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, rydym yn bwriadu aildechrau'r gwaith hwn ag egni o'r newydd yn ystod tymor newydd y Senedd. Cynigir y dylid ymgymryd â gweithgarwch mewn tri maes:

- Siarter Wirfoddol – Rydym yn bwriadu cydlunio siarter wirfoddol y gall sefydliadau ymrwymo iddi er mwyn nodi eu hymrwymiad a'u harlwy unigryw i blant â phrofiad o fod mewn gofal. Bydd y siarter yn galluogi pob rhanddeiliad i ymrwymo i ddatganiad cyffredin o gymorth a chamau gweithredu gwell wrth weithio gyda phlant â phrofiad o fod mewn gofal. Bydd y siarter yn galluogi llofnodwyr i nodi sut maent yn ymgysylltu â phlant â phrofiad o fod mewn gofal a'r hyn y maent yn cynnig ei wneud yn wahanol neu ei gynnig yn ychwanegol i ofalu am blant â phrofiad o fod mewn gofal yn y dyfodol. Bydd y siarter yn nodi egwyddorion craidd, i'w hategu gan godau ymarfer diwygiedig lle y bo angen. Dylai ddiffinio'r ymgysylltu a'r ymrwymiad a ddisgwylir gan bob sefydliad partner.
- Sgwrs Genedlaethol – Er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu'r siarter wirfoddol, mae ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid 12 wythnos o hyd wedi'i gynllunio i godi proffil rhianta corfforaethol ymhlith gwasanaethau cyhoeddus ac uwch-arweinwyr. Er mwyn codi proffil rhianta corfforaethol mewn sectorau gwahanol, mae digwyddiadau ymgysylltu penodol ag awdurdodau lleol, y GIG, partneriaid ym maes tai ac eraill wedi'u cynllunio.
- Canllawiau Statudol – Byddwn yn defnyddio ein pwerau deddfu presennol i atgyfnerthu canllawiau statudol, egluro rolau a chyfrifoldebau, ac ymestyn dyletswyddau ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus.

Yn ogystal, mae'r Ysgrifennydd Parhaol wedi sefydlu grŵp uwch-reolwyr newydd yn Llywodraeth Cymru, er mwyn helpu i gyflawni uchelgais a gweledigaeth newydd ar gyfer plant â phrofiad o fod mewn gofal ac ymdeimlad cyffredin o berchenogaeth ar draws pob portffolio polisi. Bwriedir i hyn lywio gwaith amlddisgyblaethol trawslywodraethol gwell gan y rhai sy'n darparu gwasanaethau iddynt, yn seiliedig ar

gymorth cyffredinol a phenodol gwell, llai o benderfyniadau sy'n osgoi risg, ymarfer proffesiynol cryf ac arweinyddiaeth leol glir.

Argymhelliad 29 – Y rhai sy'n gadael gofal: Cefnogi'r rhai sy'n gadael gofal a monitro effaith economaidd y pandemig ar y grŵp hwn o bobl ifanc.

Derbyn

Ers dyddiau cynnar y pandemig, mae Llywodraeth Cymru wedi casglu data wythnosol gan awdurdodau lleol mewn perthynas â chymorth i'r rhai sy'n gadael gofal er mwyn deall effaith COVID-19 ar y bobl ifanc hyn, yn enwedig mewn perthynas â chaledi ariannol a materion yn ymwneud â llety. Mae'r data wedi dangos bod nifer bach o bobl ifanc ledled Cymru yn gofyn am help, a bod help wedi'i ddarparu drwy'r Gronfa gylchol Dydd Gŵyl Dewi (SDDF - £1m) ac yn 2020-21, Cronfa Caledi COVID-19 y Rhai sy'n Gadael Gofal (CLCHF - £1m). Bwriedir i'r gwaith o gasglu data'n wythnosol barhau.

Cafodd canllawiau Llywodraeth Cymru ar ddyrannu cyllid Cronfa Dydd Gŵyl Dewi i'r rhai sy'n gadael gofal eu diwygio yn ystod y pandemig i ganolbwyntio ar wariant yn gysylltiedig â COVID-19, megis rhent, biliau bwyd, cymorth i blant, gliniaduron a ffonau symudol, band eang a chysylltedd credyd ffôn. Mae'r canllawiau hyn yn parhau ar waith. Mae'r cyllid cyrchol ac ychwanegol yn cydnabod bod y rhai sy'n gadael gofal yn aml yn cael eu cyflogi yn y sectorau sydd wedi dioddef waethaf yn sgil y cyfyngiadau symud, a bod y rhai mewn addysg neu hyfforddiant wedi wynebu sefyllfa debyg hefyd.

Gwyddom o'r adroddiadau a gafwyd gan awdurdodau lleol ar Gronfa Dydd Gŵyl Dewi fod y cyllid wedi'i ddefnyddio yn unol â'r gofynion, gan gynnig rhwyd ddiogelwch i gadw to uwchben y bobl ifanc hyn a pharhau i roi cymorth iddynt. Yn fuan, bydd yr adroddiadau a gyflwynir gan awdurdodau lleol ar Gronfa Galedi COVID-19 y Rhai sy'n Gadael Gofal yn dangos inni sut mae'r arian hwn wedi'i wario a sut mae'r bobl ifanc hyn wedi cael budd ohono.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd â'r partneriaid statudol a thrydydd sector er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y cymorth a roddir i'r rhai sy'n gadael gofal. Er enghraifft, gwnaethom weithio gyda Voices from Care i ddatblygu negeseuon ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol ynglŷn â chadw'n ddiogel yn ystod y pandemig a chael gafael ar gyllid drwy Gronfa Dydd Gŵyl Dewi. Mae'r data wythnosol a gawn a'n hystadegau ffurfiol yn Llywodraeth Cymru yn rhoi amrywiaeth dda o dystiolaeth inni barhau i ddatblygu ein hymatebion polisi.

Argymhelliad 30 – Babanod a'r blynyddoedd cynnar: Sicrhau bod y plant ieuengaf yn ein cymdeithas, ac iechyd meddwl amenedigol eu rhieni a'u gofalwyr, yn cael eu cefnogi a'u blaenoriaethu fel rhan o'r gwaith cynllunio ar gyfer adferiad.

Derbyn

Mae ein gweledigaeth ar gyfer Addysg a Gofal Plentynod Cynnar wedi'i hanelu at bob plentyn 0-5 oed, ac yn cynnwys darpariaeth hyblyg ac ymatebol i amgylchiadau unigol.

Rydym wedi comisiynu Prifysgol Abertawe i gynnal astudiaeth Delphi er mwyn manteisio ar wybodaeth arbenigwyr. Nod yr astudiaeth yw dod i gonsensws ynghylch y dulliau gweithredu y gall ymarferwyr y blynyddoedd cynnar eu defnyddio i'w helpu i nodi, lliniaru a mynd i'r afael ag unrhyw effeithiau andwyol COVID-19 ar blant dan 5 oed. Disgwylir i'r adroddiad gael ei gyhoeddi yn ystod yr haf, a bydd yn dylanwadu ar bolisi yn y dyfodol.

Yn 2021/22, rydym hefyd wedi neilltuo £42m o gyllid ychwanegol i gymorth iechyd meddwl yng Nghymru, gan gynnwys £7m o gyllid ar gyfer gwella gwasanaethau, a bydd gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol yn un o'r meysydd â blaenoriaeth allweddol ar gyfer y cyllid hwn.

Mae hyn yn ychwanegol at y gwariant rydym wedi'i neilltuo'n flaenorol i wasanaethau iechyd meddwl amenedigol ers sefydlu gwasanaethau cymunedol yng Nghymru yn 2015, sydd bellach yn cael bron £3m y flwyddyn.

Argymhelliad 31 – Plant sydd wedi bod mewn gofal: Adolygu a chofnodi prif effeithiau COVID-19 sy'n benodol i blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal, gyda'r nod o sicrhau bod unrhyw bryderon yn cael sylw cyflym.

Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gasglu data wythnosol gan awdurdodau lleol mewn perthynas â gofal a chymorth ar gyfer plant â phrofiad o fod mewn gofal. Drwy'r data hyn, rydym wedi dysgu am wahanol bwysau yn y system ac wedi ceisio sicrwydd yn ôl yr angen gan bartneriaid yn y sector y mae ganddynt ddyletswyddau statudol ar gyfer y plant hyn. Bwriedir i'r gwaith hwn o gasglu data'n wythnosol barhau. Yn ogystal, arweiniodd Comisiynydd Plant Cymru ddau arolwg 'Coronafeirws a Fi', sydd wedi bod yn ffynonellau defnyddiol o wybodaeth mewn perthynas â sut mae plant a phobl ifanc yn gyffredinol yn teimlo, ac mae'r gwaith a wnaed gan CASCADE a Voices from Care wedi bod yr un mor addysgiadol.

Rydym yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd â'n partneriaid statudol a thrydydd sector er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y cymorth a roddir i blant â phrofiad o fod mewn gofal. Mae ymateb i bandemig COVID-19 wedi bod yn eitem gyson ar agendâu cyfarfodydd yn ein hamrywiaeth o gyfarfodydd â'r sectorau, gan gynnwys y Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Wella Canlyniadau i Blant, y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer Gofal Preswyl i Blant a'r Rhwydwaith Cyfiawnder Teuluol.

Yn dilyn etholiadau'r Senedd, mae'r Gweinidogion newydd wrthi'n datblygu ac yn penderfynu ar drefniadau ynghylch sut y byddwn yn parhau i wneud y math hwn o waith ymgysylltu gyda'n partneriaid. Mae cyfarfodydd rheolaidd, y data wythnosol a gawn a'n hystadegau ffurfiol yn Llywodraeth Cymru yn rhoi amrywiaeth dda o dystiolaeth inni barhau i ddatblygu ein hymatebion polisi.